Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: **02920 490582**
E-bost: **aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
Ffôn: **01766 513138**
E-bost: **IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: **01267 232577 / 0781 751 9039**
E-bost: **alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: **01792 795888**
E-bost: **undeb@annibynwyr.org**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

CRIW CAMERA HALEN Y DDAEAR YM MWLCH-Y-CORN

Roedd pobl Bwlch-y-corn a Pheniel yn mwynhau darlith ysgarn gan Aneurin Davies am ei yrfa fel 'Dyn Tarw Potel' pan gamodd Alwyn Humphreys a chriw camera S4C trwy ddrws y festri! Roedd yno i gyflwyno plat Halen y Ddaear i Eric Lloyd, un o aelodau mwyaf ffyddlon a phrysur Bwlch-y-corn, a chymwynaswr mawr i nifer o bobl y fro.

"Mae Eric wastad yn rhoi pobl eraill yn gyntaf,' meddai'r Parchg Ken Williams. "Mae e'n berson arbennig iawn." Cafodd ei enwebu gan Menna Lenny a ddywedodd ei fod yn gymwynaswr heb ei ail, sydd wastad yn barod i helpu pobl trwy siopa, yn yr ardd, gwneud bwyd neu beth bynnag. Nid yw "na" yng ngeirfa Eric meddai un o'i gymdogion, Iona Morgans. "Pan 'y chi'n galw fe, mae e'n dweud 'bydda'i yna nawr'". Athroniaeth syml Eric yw "Os alla'i helpu rhywun, rwyn barod i wneud os allai. S'dim angen gwneud drwg i neb, oes e?"

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

DYMA FFYDD

Galwad i artistiaid gweledol eglwysi'r Annibynwyr Cymraeg

Mae'r Undeb, trwy'r Ysgrifennydd Cyffredinol, yn awyddus i drafod a threfnu arddangosfa gelf weledol ar y thema o ***Dyma Ffydd***

Efallai eich bod wedi creu gwaith sydd ...
... yn ddatganiad o ffydd a gobaith
... yn archwilio ffydd a gobaith
... yn canolbwyntio'n benodol ar agweddau o ffydd

Os hoffech fod â rhan yn y drafodaeth ac os oes gwaith gweledol gennych i'w gynnig ar y thema, hoffem glywed gennych ar frys!

PENWYTHNOS Y GANNWYLL

Cynhaliwyd oedfa arbennig yng Nghaersalem Pontyberem i ddathlu Penwythnos y Gannwyll (Hydref 21-23). Mae apêl yr eglwys tuag at Llyfrau Llafar Cymru ar agor tan 'Dolig. Dyma lun o'r aelodau a fu'n ran o gyflwyniad y bore.

Cyfle o hyd i Gymryd Rhan

Bwriad Penwythnos y Gannwyll oedd hysbysu Llyfrau Llafar Cymru, gwasanaeth hynod werthfawr ar gyfer y rhai sy'n ddall neu'n colli eu golwg. Cynhaliwyd nifer fawr o oedfaon ac achlysuron eraill ledled Cymru, gyda chasgliadau'n cael eu gwneud tuag at gynnal yr elusen.
Bydd mwy am lwyddiant y Penwythnos yn Y Tyst yn fuan, yn ogystal â nifer o luniau.

Nid yw'n rhy hwyr i chi gynnal oedfa! Mae oedfa lawn a Phwynt Pwer ar gael gan y Parchg Beti-Wyn James: *beti.wyn@icloud.com* a chopi o gân Tecwyn Ifan – 'Goleuni i'r nos' trwy e-bostio: *llyfraullafarcymru@carmarthentown.com* neu ffonio 01267 238225.

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Wasg Morgannwg, 27 Ystad Ddiwyd. Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.

PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 149 Rhif 46 Tachwedd 10, 2016 50c.

Y GYMRAEG: CYFRANIAD PWYSIG Y CAPELI – MERI HUWS

Cafodd awydd Undeb yr Annibynwyr i gyfrannu tuag at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau bod miliwn o bobl yn siarad Cymraeg erbyn 2050 ei groesawi'n frwd gan Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg. Mewn sawl cymuned, lle mae'r siop a'r swyddfa bost, y dafarn a'r ysgol wedi cau, y capel Cymraeg lleol yw'r unig adeilad cyhoeddus sy'n dal i fod ar agor. Mae'r Undeb yn awyddus i weld defnydd yn cael ei wneud o aelodaeth ac adeiladau i hybu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn eu hardal.

"Dyma ymateb aruthrol o bositif," meddai Meri Huws. "Meddyliwch beth sydd 'da ni o ran y capeli, yn adeiladau, yn gynulleidfaoedd ac yn gymunedau. Efallai bo ni wedi anghofio'r rôl sydd gyda nhw i helpu sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n fyw yn ein cymunedau ar draws Cymru." Gan gyfeirio at y capeli Annibynnol, meddai Ms Huws: *"Chi ym mhobman! Mae 'na gyfle bendigedig fan hyn. Mae'n bosib ein bod ni, wrth feddwl am y capeli yn dirywio, wedi mynd i feddwl nad oes cyfraniad pwysig gyda nhw. Dyma'r adeg i ddweud wrth y capeli – Camwch Ymlaen!"*

Heriau'r Dyfodol

Fe wnaeth Meri Huws ei sylwadau ar ddiwedd cyfarfod yn Y Pierhead ym Mae Caerdydd, lle cafwyd dadansoddiad cryno o brif ganfyddiadau adroddiad pum-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg, a'r heriau a chyfleoedd sydd o'i blaen.

Roedd yna elfennau digalon yn yr adroddiad. Nodwyd mai addysg yw'r prif ddull o greu siaradwyr Cymraeg, ond ni fu cynnydd yn ystod y blynyddoedd diweddar yn niferoedd y plant sy'n derbyn eu haddysg a gofal blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng yr iaith. Dim ond mewn 9% o gartrefi Cymru y mae'r Gymraeg yn iaith pawb yn y tŷ.

Yn y fath sefyllfa, bydd angen ymdrech aruthrol i rwystro dirywiad pellach, heb sôn am ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn canol y ganrif. Wrth dorchi llawes i gymryd rhan yn yr ymgyrch arwrol hon, mae cyfle i adfywio ein heglwysi hefyd. Ar hyd y canrifoedd, bu Cristnogaeth a'r Gymraeg yn cerdded law yn llaw yn ein gwlad.

Geiriau a Llun: **Alun Lenny**

YR UNDEB A'R GYMRAEG

Fis diwethaf, yng Nghyngor yr Undeb yng Ngregynog, fe wnaeth Dr Geraint Tudur apêl ar i'r Undeb ail-gydio mewn ymgyrch a gychwynwyd gan yr Annibynwyr yn sgil cyhoeddi canlyniadau siomedig Cyfrifiad 2011. Bryd hynny, cytunwyd i annog ac helpu'r eglwys leol i wneud defnydd o aelodaeth ac adeiladau i hybu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn ei hardal yn unol â'r traddodiad Cristnogol. Cytunwyd y byddai'n brosiect cenhadol o ran ein hiaith a'n ffydd, yn ffordd o adfywio bywyd yr eglwys, a hefyd yn fodd i gau'r bwlch rhwng cymunedau ieithyddol sy'n byw bywydau cyfochrog mewn sawl ardal.

Bu'r Diwrnod Hanes yn un llwyddiannus dros ben. Roedd llond y lle ym Methel, Sgeti yn clywed yr Athro Prys Morgan yn traethu am Frad y Llyfrau Gleision. Ar ôl araith Robat Powell yn y prynhawn, bu pererindod i ganolfan Calon Lân. Bydd adroddiad yn Y Tyst yn fuan.

CYMDEITHAS HANES YR ANNIBYNWYR

Bu'r Diwrnod Hanes eleni yn un llwyddiannus dros ben. Roedd llond y lle yn Bethel, Sgeti yn gwrando ar yr Athro Prys Morgan yn traethu am Frad y Llyfrau Gleision. Ar ôl clywed Robat Powell yn y prynhawn, aeth nifer o'r gynulleidfa ar bererindod i'r Mynydd Bach, i ganolfan Calon Lan, lle cawsant groeso arbennig iawn. Bydd adroddiad llawn am y diwrnod yn Y Tyst yn fuan.

CWRDD CHWARTER CYFUNDEB ARFON

Cynhaliwyd y cyfarfodydd ar wahoddiad Eglwys Unedig Gymraeg, Llandudno, ar 26 Hydref gyda'r Parchg Gareth Edwards, Capel Coffa, Cyffordd Llandudno yn llywyddi.

Yn dilyn gweddi agoriadol a gair o groeso gan y Llywydd, arweiniwyd y defosiwn gan Mr Gwilym Williams, Mrs Hazel Elias a Mrs Beryl Jones. Cydganwyd dau emyn, darllenwyd rhan o bennod 12 o lythyr Paul at y Corinithiaid a gweddïwyd.

Y Gynhadledd

Derbyniwyd Cofnodion Cyfarfod Chwarter Eglwys Carmel, Llanllechid, a gynhaliwyd ar y 6ed Gorffennaf 2016 fel rhai cywir. Nid oedd mater yn codi. Derbyniwyd Cofnodion Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ym Methlehem, Tal y Bont ar yr 4 Hydref fel rhai cywir.

Materion yn codi:

- Eglwys Salem, Caernarfon yn fodlon bod Eglwys sampl o'r Cyfundeb i lunio, a chadw at, Gynllun Datblygu 5 mlynedd yn amodol ar gydweithio gydag un, neu fwy, o Eglwysi di-fugail o mewn y Cyfundeb ond yn gofyn a oedd Eglwys Annibynol gyfagos wedi'i hadnabod a allai gydweithio. Atebwyd nad oedd hyd yn hyn.
- Trafodwyd cyfarfod y Panel Bugeiliol a chyfarfod yr Ysgrifennydd a'r Bonwr Cynrig Hughes gyda chynrychiolaeth o Ofalaeth Dyffryn Conwy. Deallwyd fod yr Ofalaeth bellach mewn trafodaethau gyda Gweinidog newydd posibl i'r Ofalaeth.
- 15 Medi 2016 – Capel Coffa, Y Gyffordd – lansiad (Gogledd Cymru) o gynllun 'Y Ffordd' gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.
- Nodwyd y yr Ysgrifennydd presennol yn parhau gyda'i gyfrifoldeb hyd at ddiwedd 2017 a bod y Parchg Dylan Rhys Parry yn dod yn Ysgrifennydd y Cyfundeb Ionawr 2018 - Rhagfyr 2019.
- Rhanwyd braslun o ddyddiadau a lleoliadau Cyfarfodydd Chwarter ar gyfer 2017

Cydymdeimlo a Dymuno'n dda:

Cydymdeimlwyd â theuluoedd Mr Hugh Evans [Ysgrifennydd Eglwys Nant y Rhiw] a Miss Nancy Jones[Carmel, Llanllechid]. Anfonwyd cyfarchion am wellhâd at Y Parchg J Ronald Williams, Mrs Ann P Jones a Mr Robat Tomos [Nant y Benglog], Miss Iona Jones [Peniel,Waun, Penrir], Laura Roberts, Menna Roberts, John Williams a Gwynfor Roberts [Unedig Llandudno]. Gweddïwyd yn addas gan y Parchg Dylan Rhys Parry.

Materion Eraill

Nodwyd fod Ebeneser, Trefriw wedi'i datgorffori fore Gwener, 21 Hydref yng nghwmni'r Ysgrifennydd Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Cyfundeb. Rhanwyd gwybodaeth bellach am gynllun 'Y Ffordd' gan y Parchg Dylan Rhys Parry gydag anogaeth i eglwysi ddefnyddio'r pecyn.

Ail ran y Cyfarfod:

Cafwyd pregeth angerddol gan y Parchg. Wilbur Lloyd Roberts, Llandeilo ar destun o Effesiaid 5:25-27. "*Chwi wŷr, carwch eich gwragedd, fel y carodd Crist yntau'r eglwys a'i roi ei hun drosti, i'w glanhau â'r golchiad dŵr ynghyd â'r gair, a'i sancteiddio, er mwyn iddo ef ei hun ei chyflwyno iddo'i hun yn ei llawn ogoniant, heb fod arni frycheuyn na chrychni na dim byd o'r fath, iddi fod yn sanctaidd a di-fai*".

- Beth yw natur yr Eglwys?
- T.N. – diffiniad o eglwys yw CARIAD
- Rydym yn rhoi cariad mewn rhywbeth tebyg i 'wydr yn llawn gwagle'
- Duw yw'r un sy'n caru Israel, Jerwsalem a'r byd
- Duw'n mynnu torri trwy'n 'muriau' ni
- Sôn ym mhennod 5 fod yr eglwys yn "ddyweddi"
- Ateb Crist i baham ei fod yn caru'r byd / ni yw "Am ei fod yno / yna"
- Carodd Crist yr eglwys a rhoi'i hun drosti
- Serch fod gennym gymdeithas a phopeth gennym rydym yn gymdeithas glâf a chlwyfus
- Rydym fel Namaniaid cyfoes – dim angen oedfa
- John Calvin – *"Os nad wyf yn well Cristion heddiw nad oeddwn ddoe, nid wyf yn Gristion"*
- Llawer ar fin claddu'r eglwys heddiw ond mae Crist yn parhau i garu'r eglwys o hyd
- Morgan Rhys –"*Fe welir Seion fel y wawr…"*

Diolchwyd i'r Parchg Roberts am ei bregeth rymus gan y Parchg Olaf Davies. Canwyd Emyn i gloi a thrafodwyd y fendith gan y Parchg. Wilbur Lloyd Roberts. Diolchwyd i Swyddogion ac aelodau yr Eglwys Unedig am y croeso hynod gynnes a'r lluniaeth a baratowyd, gan y Parchg Mererid Mair. Dyddiad a lleoliad y Cyfarfod Chwarter nesaf: 25 Ionawr 2017 ym Methlehem, Tal y Bont pryd yr urddir y Parchg D John Pritchard yn Lywydd y Cyfundeb am gyfnod o ddwy flynedd.

Ifor Glyn
Ysgrifennydd y Cyfundeb

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Rhagrybuddion

Dyddiau Gweinidogion
Eglwysi Annibynnol
y Gogledd a'r De

Yn y De:
Capel Bethania,
Tymbl Uchaf, SA14 6ED
Dydd Mercher,
23 Tachwedd 2016
Cychwyn am 10.30am

Yn y Gogledd:
Capel Coffa,
Cyffordd Llandudno, LL31 9HG
Dydd Iau, 8 Rhagfyr 2016
Cychwyn am 10.30am

Darperir cinio am ddim
ar y ddau ddiwrnod

Cyhoeddir enwau'r siaradwyr cyn gynted â phosibl

Barn Annibynnol

Yn ystod hanner tymor trefnodd John Grisdale daith gerdded i blant a phobl ifanc Salem (a'u teuluoedd) oedd yn teimlo'n ffit ac egniol. Rhaid oedd cyfarfod am 9:30; dipyn o her i rai oedd wedi arfer efo boreau diog y gwyliau a rhaid oedd cydnabod nad oedd y cymylau llwydaidd yn dennu rhyw lawer! Y nod oedd cyrraedd Llyn Marchlyn Mawr; y llyn sy'n darparu dwr ar gyfer pwerdy hydro Dinorwig. Nid oedd yn daith hir na rhy heriol ond roedd yn ddigon i ni deimlo ein bod wedi cyrraedd uchder go lew ac wedi ymestyn y coesau fymrym. Ac yn bendant roedd yn gofyn am fwy o egni na gorweddion yn gwylio'r teledu! Cyn cyrraedd Llyn Marchlyn Mawr, daethom at Lyn Marchlyn Bach a chael cyfle i aros am ennyd a mwynhau'r olygfa; i'r chwith edrychem i lawr ar y dre' orau yn y byd oedd yn edrych yn hynod o fach ac i'r dde gallem weld pen Ddwyreiniol Ynys Môn – Ynys Seiriol, a syth ymlaen, yn y pellter, Mynydd Caergybi. Ym mhob man roedd y môr yn ymestyn yn eang tuag at y gorwel. Er nad oeddem wedi cerdded yn andros o bell roeddem wedi cyrraedd uchder go lew ac yn teimlo ein bod fel brenhinoedd yn edrych lawr ar ein teyrnas.

Edmygu'r Olygfa

Cawsom gyfle i gael llymaid o ddiod ac ambell i dda-da – hanfodol ar gyfer cadw egni cerddwyr! Cododd John ddarn o lechen a gofyn i'r plant beth oedd ei oed. Dechreuwyd yn ddigon isel – 200, 5000, 100,000. Gan ddefnyddio'r lechen ysgrifennodd John y rhif 500, 000,000. Ond nid oedd amser i aros; roedd Llyn Marchlyn Mawr yn galw a fyny a ni eto nes cyrraedd y Llyn. Unwaith eto, dyma gyfle i droi ac edmygu'r olygfa. Erbyn hyn roeddem yn gweld ymhellach a'r môr yn ymestyn yn ddi-ddiwedd. Cefais y teimlad hwnnw a geir yn aml pan yng nghanol byd natur a'r cread o fod yn fychan iawn. A gyda'r rhif 500 miliwn mlynedd yn dal i atsain yn fy nghlustiau cefais gyfle i roi bywyd mewn cyd-destun am ennyd.

Dirgelwch na ellir ei amgyffred

Ryda ni fel pobol wedi cyrraedd man o feddwl ein bod yn andros o glyfar yn tydan?! Pwy all ein beio ni mewn gwirionedd, yn tyda ni wedi darganfod gymaint o bethau ac wedi creu rhyfeddodau. Ryda ni wedi 'concro' bron iawn pob rhan o'r byd a thu hwnt ac o ganlyniad ryda ni – a pwy all ein beio ni – wedi datblygu rhyw agwedd hunan-foddhaus yn ein llwyddiant ni'n hunain. Ac eto, o dreulio amser gyda natur ac ystyried y miliynau o flynyddoedd mae rhannau o'r cread wedi bodoli, yna bychan iawn ydy'n rhan ni o fewn clytwaith eang hanes y greadigaeth. I mi, mae dirgelwch na ellir ei amgyffred yn Nuw, y Creawdwr. Ar adegau gall hyn fod yn anodd i'n meddyliau 'modern' lle mae disgwyl ateb ac eglurhad i bob dim. Ond mae rhyddid anfesuradwy mewn safbwynt sy'n fodlon derbyn na allwn ddeall nac amgyffred y cyfan. Dyna yw ffydd; allwn ni ddim ei egluro drwy fformiwla fathemategol – ac nid oes disgwyl i ni. Mae bosib bod yn sicr yn ein ansicrwydd a chydnabod na wnawn ddeall y cyfan ac nad oes rhaid gwneud hynny i fyw bywyd llawn.

"Arglwydd mawr y cyfrinachau,
Ti yw saer terfynnau'r rhod,
Artist cain yr holl ddirgelion
A chynlluniwr ein holl fod;
Creasit fywyd o ronynnau a rhoi chwyldro yn yr had;
Rhannu, lôr, wnest ti o'th stordy
Amhrisiadwy olud rhad"

C.FF 101 Dafydd Whitall

Mererid Williams

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

CYNORTHWY-YDD PERSONOL I'R YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn chwilio am unigolyn brwdfrydig ac egnïol i weithio yn Nhŷ John Penri, Abertawe.

Gwahoddir ceisiadau gan rai sydd o argyhoeddiad Cristnogol, ac sy'n drwyadl ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg.

Ceir disgrifiad llawnach o'r swydd, amodau gwaith a chyflog, a ffurflen gais gan:

Yr Ysgrifennydd Gweinyddol,
Tŷ John Penri,
5 Axis Court, Parc Busnes, Glanyrafon,
Bro Abertawe, ABERTAWE. SA7 0AJ

Ffôn: 01792-795888
e-bost: *ann@annibynwyr.cymru*

Dyddiad cau: 17 Tachwedd 2016
Cynhelir y cyfweliadau ar 7 Rhagfyr 2016

GWEINYDDU'R CYMUN

Y Parchg Aled Jones yn cynnal dwy sesiwn ym

Methlehem, Gwaelod-y-garth
Tachwedd 15 a Thachwedd 17
rhwng 7.00 a 9.00 y.h.

Croeso cynnes i unrhyw un o eglwysi'r De Ddwyrain

Cymanfa Ganu Cyfundeb Llundain

Cafwyd 'canu bendigedig' yn wir yng nghymanfa flynyddol Cyfundeb Llundain, ar nos Sul, Medi 25, yng Nghapel y Boro' Southwark. Llywyddwyd y Gymanfa gan y Parchg D. Gwylfa Evans a chymerwyd y rhannau agoriadol gan Mr Owen Markham a Mr Neil Evans y Boro'. Prin oedd angen cyflwyno'r arweinydd eleni sef y Parchg Robert Nicholls, sydd wedi ymgartrefu'n hapus yma ymhlith Cymry Llundain fel Gweinidog Eglwys Gymraeg Canol Llundain. Eto, fel arweinydd ac organydd yr adnabuon ef cyn hyn ac fel arweinydd y cawsom flas ar ei dalent yn ein Cymanfa. Er bod y nifer yn bresennol yn llai nag arfer 'roedd presenoldeb Côr y Boro, gyda'u harweinydd Mr Mark Williams yn gaffaeliad mawr i'r canu ac wedi sicrhau bod hwyl a naws y canu o dan arweiniad Rob wedi ysbrydoli pawb. Mr John Jones, y Boro' oedd wrth yr organ, ac yma eto roedd cydweithio hwylus rhyngddo a'r arweinydd. Cadeirydd y Cyfundeb, Mr Lloyd Lloyd, a ddiolchodd i bawb am eu rhan yn y Gymanfa, sy'n rhan o weithgareddau'r Cyfundeb yma'n y Brifddinas. Diolchodd Lloyd hefyd am y croeso'n y Boro' ac am y lluniaeth hyfryd a oedd yn wledd ar ddiwedd noson.

Diolch hefyd i Mrs Glenys Earnshaw, Harrow am drefnu'r noson, er nad oedd hi'n medru bod yn bresennol.

Mair Jones